Heintiau drwy Drin Ewinedd

Pecyn cymorth i hybu ymwybyddiaeth am yr angen i atal heintiau rhag lledu drwy salonau ewinedd

Cynnwys:

Pennod 1 Datganiad o ddiben –nodau ac amcanion y Cynllun

Pennod 2 Pethau i'w hystyried cyn dechrau'r prosiect

Pennod 3 Cynnal ymgyrch am Heintiau drwy Drin Ewinedd

Atodiad 1 Holiadur cyn y Cynllun – Technegwyr Ewinedd

Atodiad 2 Holiadur cyn y Cynllun – Cleientiaid Salonau Ewinedd

Atodiad 3 Ffurflen Ymholiadau Iechyd cyn Triniaeth

Atodiad 4 Testun awgrymedig ar gyfer Taflen Gwybodaeth Gyhoeddus

Atodiad 5 Holiadur ar ôl y Cynllun – Cleientiaid Salonau Ewinedd

Pennod 1

Heintiau drwy Drin Ewinedd

Hybu ymwybyddiaeth am yr angen i atal heintiau rhag lledu drwy salonau ewinedd

Cyflwyniad – nodau ac amcanion y Cynllun

Her Iechyd Cymru

1. Dewiswyd themâu allweddol Her Iechyd Cymru oherwydd ystyrir bod y materion hyn yn gyfran sylweddol o'r salwch y gellid ei osgoi. Atal heintiau yw un o'r themâu allweddol. Cynlluniwyd yr ymyriad hwn i atal heintiau rhag lledaenu rhwng cleientiaid a'i gilydd a rhwng cleientiaid a thechnegwyr mewn salonau ewinedd sy'n cynnig triniaeth dwylo a thraed.

2. Yn ôl HABIA (Cymdeithas y Diwydiant Gwallt a Harddwch), y corff a gymeradwywyd gan y llywodraeth i osod safonau ar gyfer gwasanaethau ewinedd, mae 1,500 o salonau ewinedd achrededig yn y DU, ac mae'r nifer hon yn codi i 17,000 os cyfrir ymarferwyr ar eu liwt eu hunain hefyd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad i'r rhai sy'n gweithredu salonau ewinedd, neu'n cynnig gwasanaethau ewinedd, i gofrestru â'r awdurdod lleol, felly mae'n debygol bod y niferoedd hyn yn amcangyfrif niferoedd y salonau/technegwyr ewinedd sy'n gweithredu yn y DU yn rhy isel.

3. Nid oes unrhyw ofyniad trwyddedu ar gyfer technegwyr ewinedd ac nid oes unrhyw ofyniad chwaith i unrhyw un sy'n cynnig gwasanaethau ewinedd i gael eu hyfforddi. Mae HABIA yn argymell cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol fel NVQ Lefel 2 neu 3 mewn gwasanaethau ewinedd, neu gymwysterau priodol City & Guilds, BTEC, VTCT neu ITEC. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad i unrhyw un sy'n cynnig gwasanaethau yn dechnegydd ewinedd gael unrhyw fath o gymhwyster ffurfiol nac unrhyw fath o hyfforddiant.

4. Gall heintiau ledaenu mewn salonau ewinedd mewn sawl ffordd. Gall clefydau'r ewinedd a'r croen drosglwyddo o'r cleient i'r technegydd ac i'r gwrthwyneb yn sgil hyfforddiant gwael a glanhau heintus yn ogystal â thechneg wael wrth drin ewinedd. Maent yn gallu trosglwyddo hefyd oherwydd amodau gwaith gwael a budr, lle gall cynhesrwydd ac amodau llaith alluogi bacteria i luosogi. Gall heintiau firol, hepatitis B a dafadennau gael eu lledu hefyd os defnyddir offer heb ei ddiheintio. Gall

heintiau ffwngaidd fel Onychomycosis ledaenu drwy gyffwrdd â phobl heintiedig a thrwy gyffwrdd â thywelion ayb a ddefnyddiwyd gan bobl heintiedig. Gall heintiau ffwngaidd y traed ledaenu os caiff dŵr mewn sbas traed ei ailgylchu, gan nad oes modd diheintio dŵr sy'n dychwelyd i bibau sbas traed.

5. Mae'n anodd casglu data cywir am nifer y cleientiaid a thechnegwyr ewinedd sy'n dal heintiau drwy salonau ewinedd. Mae'r haint yn radd isel yn gyffredin ac mae'r rhai yr effeithir arnynt naill ai'n gwneud diagnosis ac yn trin eu hunain, neu'n cyflwyno eu hunain i'w meddyg teulu, lle caiff gwrthfiotigau, neu baratoadau gwrthffyngol neu wrthfirol eu rhagnodi. Fodd bynnag, dangosodd ymchwil gan Gyngor Dinas Bryste yn 2006 fod amodau mewn un o bob pum salon ewinedd yn y ddinas yn golygu risg sylweddol i iechyd o ganlyniad i hylendid gwael a/neu ddiffyg hyfforddiant priodol i staff[i]. Mae problem dal heintiau o salonau ewinedd wedi'i chydnabod yn yr Unol Daleithiau, lle mae cleient salon wedi llwyddo i erlyn am UD $150,000 ar ôl dal haint yn ddiarwybod mewn salon ewinedd.

6. Gall ewinedd ffug achosi damweiniau ac anafiadau hefyd. Mae Ysbyty Dinas Birmingham yn amcangyfrif bod 6 merch yr wythnos yn cyflwyno'u hunain gyda phroblemau cysylltiedig ag ewinedd, gan gynnwys yr ewinedd ffug yn cael eu rhwygo i ffwrdd. Yn yr achosion mwyaf difrifol mae'r ewin go iawn yn cael ei dorri neu ei rwygo i ffwrdd hefyd, gan achosi niwed pellach i wely'r ewin.

7. Mae technegwyr ewinedd yn fwy agored i heintiau gan eu bod yn delio â nifer o gleientiaid mewn diwrnod, a hefyd maent yn fwy agored eto i heintiau gan fod golchi dwylo yn gyson ac adweithiau i'r cemegau a ddefnyddir mewn salonau ewinedd yn chwalu rhwystrau naturiol y croen. Hefyd, os yw technegwyr yn gwisgo menig amddiffynnol, gall yr amgylchedd cynnes a llaith y tu mewn i'r faneg achosi heintiau i dyfu heb eu gweld ac yn gyflymach na phe byddai'r llaw wedi'i datgelu i'r aer.

8. Mae'r ymyriad yn ceisio hybu ymwybyddiaeth gyda'r cyhoedd a chyda thechnegwyr ewinedd am yr angen am hylendid da ac arferion hylendid cadarn mewn salonau ewinedd, a'r canlyniadau pe na arferir hylendid da. Wrth wneud hynny, mae'n cyfrannu at gyflawni un o themâu allweddol Her Iechyd Cymru, gan atal heintiau rhag lledu.

Pennod 2

Heintiau drwy Drin Ewinedd– Pethau i'w Hystyried cyn rhoi Cynllun ar waith

1. Ystyriaethau cychwynnol

Mae'n rhaid mynd i'r afael ag ystyriaethau cychwynnol ar gyfer y prosiect hwn, gan gynnwys:

- Pwy yw'r grŵp targed?
- A gyflawnir y canlyniad dymunol?
- Sut y gellir cyrraedd y grŵp targed?
- Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y cynllun?
- Sut y caiff y cynllun ei werthuso?
- A fydd y cynllun yn cyflwyno gwerth am arian?

2. Grŵp Targed

Ceir dau grŵp targed ar gyfer y cynllun hwn, sef technegwyr ewinedd, sydd mewn perygl cael haint bob dydd wrth roi triniaeth dwylo a thraed, a'r aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n manteisio ar driniaeth dwylo a thraed.

Mae'n gymharol hawdd adnabod y grŵp targed cyntaf, gan y byddant naill ai'n gweithio mewn salonau ewinedd neu safleoedd eraill lle darperir gwasanaeth triniaeth dwylo, fel siopau trin gwallt neu siopau adrannol. Gellir mynd atynt felly yn eu mannau gwaith.

Mae'n anos adnabod yr ail grŵp, sef aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â'r grŵp cyntaf, gan fod hwn yn grŵp cyfnewidiol, nad oes ganddo unrhyw beth yn gyffredin efallai heblaw ymweld â'r grŵp cyntaf.

3. Cyflawni'r canlyniad dymunol

Canlyniad dymunol yr ymyriad hwn yw hybu ymwybyddiaeth am risg lledaenu heintiau drwy salonau ewinedd. Awgrymir felly, cyn dechrau ymarfer hybu proffil, y bydd angen canfod pa lefel o wybodaeth sy'n bodoli o ran risg posibl heintiau a sut y gellir cwtogi ar hyn.

Fel y nodwyd ym Mhennod 1 nid oes unrhyw ddata dibynadwy am nifer yr heintiau sy'n cael eu dal gan dechnegwyr ewinedd neu'r rheiny sy'n ymweld â salonau ewinedd. Nid yw'n bosibl felly cynnal cymariaethau 'cyn' ac 'wedyn' o unigolion sy'n cyflwyno heintiau y gellir eu priodoli i arfer gwael mewn salonau ewinedd.

4. Cyrraedd y Grŵp Targed

Mae'n gymharol hawdd cyrraedd y grŵp targed cyntaf, sef technegwyr ewinedd a'r rheiny sy'n gweithio mewn salonau ewinedd. Bydd awdurdodau lleol yn ymwybodol o fariau a salonau ewinedd yn eu hardal, a dylent wybod hefyd am safleoedd lle cynigir gwasanaethau ewinedd yn ogystal â gwasanaethau eraill, fel trin gwallt. Gellir targedu'r grŵp hwn felly drwy eu safleoedd gwaith.

Mae'n anos cysylltu â'r ail grŵp, sef defnyddwyr gwasanaethau ewinedd, gan nad oes ganddynt unrhyw beth yn gyffredin â'i gilydd, heblaw eu bod yn defnyddio bariau a salonau ewinedd. Fodd bynnag, gellir eu targedu drwy ymgyrch cyfryngau, gan ddefnyddio e.e. cylchgronau sglein a ddarperir am ddim yn yr ardal, fel Ladies First ayb, a phapurau newydd lleol. Gellir eu darparu hefyd gyda thaflenni a roir iddynt yn y safleoedd lle cânt y gwasanaethau ewinedd cyn iddynt gael eu triniaeth, ac ar ôl iddynt gael eu triniaeth, gan gynnwys cyngor cyffredinol am hylendid yn ogystal â chyngor am ôl-ofal.

5. Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y cynllun?

Cynhelir y cynllun hwn gan adran iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol, drwy ei Dîm Iechyd a Diogelwch. Nid oes angen iddo gynnwys partneriaid eraill, ond efallai yr hoffai'r rheiny sy'n rhedeg y cynllun gynnwys colegau lleol lle cynhelir cyrsiau gwallt a harddwch yn bartneriaid, neu grwpiau lleol o salonau ewinedd neu siopau trin gwallt lle cynigir gwasanaethau felly.

6. Sut y caiff y cynllun ei werthuso?

Fel y nodwyd ym mharagraff 3 uchod, mae'r cynllun hwn yn ceisio hybu ymwybyddiaeth am risg heintiau o salonau ewinedd, i dechnegwyr ewinedd ac i'w cleientiaid. Yn y ddau achos, bydd angen pennu pa lefel o wybodaeth sy'n bodoli cyn yr ymyriad a pha newidiadau a wnaed i lefelau'r wybodaeth ers yr ymyriad.

Gellir gwneud hyn drwy holiadur neu gyfweliadau wyneb yn wyneb â thechnegwyr ewinedd a chwsmeriaid. Yna, dylid ailadrodd yr ymarfer ar ôl yr ymarfer hybu proffil i weld a oes mwy o ymwybyddiaeth. Gellir ei ailadrodd ymhellach ar gyfnod amser penodol ar ôl yr ymarfer hybu proffil i weld a gynhaliwyd y lefelau gwybodaeth ac a gadwyd y wybodaeth. Nid yw'n bosibl dweud a fydd y cwsmeriaid hynny sy'n ymwybodol o risg heintiau yn gweithredu ynghylch y wybodaeth sydd ganddynt, drwy e.e. dewis peidio â defnyddio salonau ewinedd nad ydynt yn ymddangos mor lân ag eraill, neu drwy fynnu bod yr offer a ddefnyddir yn lân neu'r arferion yn lân. Fodd bynnag, awgrymir y gallai'r ffaith y bydd cwsmeriaid yn ymwybodol o'r camau y dylid eu cymryd i atal heintiau a'u lledaeniad achosi technegwyr ewinedd a'r rhai sy'n gweithio mewn salonau ewinedd i sicrhau bod eu harferion yn ddiogel ac yn lân.

7. A fydd y cynllun yn cyflwyno gwerth am arian?

Fel y nodwyd, mae diffyg unrhyw ffigurau terfynol ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â thrin heintiau i dechnegwyr ewinedd neu gwsmeriaid yn ei gwneud yn anodd iawn cyfrif y ffigur sy'n cael ei wario'n flynyddol ar drin heintiau sy'n cael eu dal mewn salonau ewinedd. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth fod costau'n codi yn sgil heintiau o'r fath, er efallai'r unigolion dan sylw sy'n eu talu yn hytrach na'r GIG. Os bydd technegwyr yn dal haint, fe allai, ac yn wir fe ddylai, effeithio ar eu gallu i weithio hyd nes bod yr haint wedi clirio'n foddhaol, a gallai hyn gael goblygiadau i'r unigolion.

Mae hwn yn ymyriad cymharol rad i'w gynnal. Mae'n gofyn ond deunyddiau argraffedig y gellir eu cynhyrchu gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn fewnol, ac amser swyddogion i gynnal y cyfweliadau neu gasglu'r ymatebion i holiaduron. Awgrymir felly fod hwn yn werth am arian, er nad oes ffigurau cost terfynol.

Pennod 3

Heintiau drwy Drin Ewinedd – Hybu ymwybyddiaeth am yr angen i atal heintiau rhag lledu drwy nail bars

Cynnal ymgyrch am Heintiau drwy Drin Ewinedd

Yr ymgyrch

Yr ymgyrch parhaus i hybu ymwybyddiaeth am y risgiau lledaenu heintiau i gleientiaid a thechnegwyr drwy salonau ewinedd.

Camau rhagarweiniol

Y cam cyntaf yn y cynllun hwn yw adnabod y safleoedd hynny sy'n cynnig gwasanaethau ewinedd i gleientiaid. Gall y rhain fod yn salonau ewinedd, sy'n cynnig gwasanaethau ewinedd yn unig, salonau harddwch sy'n cynnig gwasanaethau ewinedd yn rhan o gyfres o wasanaethau a safleoedd eraill fel siopau trin gwallt neu siopau adrannol sy'n cynnig gwasanaethau ewinedd yn wasanaeth ychwanegol at y brif fasnach a geir. Awgrymir hefyd y dylai'r rhai sy'n rhedeg y cynllun edrych ar yr hysbysebion bach mewn papurau sy'n cylchredeg yn yr ardal ar gyfer technegwyr ewinedd peripatetig nad oes ganddynt safleoedd parhaol efallai, ond y dylid eu cynnwys yn rhan o'r cynllun.

Drwy nodi'r safleoedd, gellir nodi aelodau'r ail grŵp targed, sef cleientiaid y grŵp targed cyntaf. Mae angen adnabod y grŵp hwn er mwyn mynd atynt i ofyn iddynt lenwi'r holiadur cyn y cynllun. Efallai y bydd gan rai salonau ewinedd restr o gleientiaid y byddant yn barod ei darparu, ond gall fod angen ymweld â'r salonau ewinedd dros gyfnod o wythnosau i gyfarfod â chleientiaid wyneb yn wyneb a gofyn iddynt lenwi'r holiadur. Gellir nodi defnyddwyr y salonau ewinedd hefyd drwy roi hysbyseb yn y papur lleol yn gofyn iddynt gysylltu â'r awdurdod lleol i gymryd rhan yn y prosiect, neu drwy e.e. gwneud yr un cais i holl staff y cyngor gan ddefnyddio'r fewnrwyd ayb.

Ar ôl nodi'r ddau grŵp targed dylai'r rhai sy'n rhedeg y cynllun gael y data sylfaenol am gyflwr gwybodaeth y ddau grŵp o ran risgiau heintio a dulliau lleihau ac atal y rhain. Dangosir yr holiaduron a ddefnyddiwyd yn y prosiectau peilot o ran technegwyr ewinedd a chleientiaid salonau ewinedd yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 yn y drefn honno.

Awgrymir efallai yr hoffai'r rhai sy'n rhedeg y cynllun bennu pa wybodaeth o ran cyflyrau iechyd cynt sydd ei hangen ar salonau ewinedd cyn derbyn cleientiaid a rhoi triniaeth. Bydd y ffaith bod salon yn gofyn am wybodaeth o'r fath yn arwydd bod ganddynt beth gwybodaeth am bosibilrwydd adweithiau iechyd andwyol a hefyd peth gwybodaeth am y ffaith y gall y triniaethau ledaenu'r cyflyrau sydd eisoes yn bodoli, a bod absenoldeb gofyniad i ddarparu gwybodaeth o'r fath yn arwyddo fel arall.

Os na ofynnir am y wybodaeth, awgrymir y gellid darparu ffurflen addas i'r salon ei haddasu. Dangosir y ffurflen a ddarparwyd yn y prosiect peilot yn Atodiad 3.

Ar ôl casglu'r data cyn y cynllun gellir dechrau'r prosiect o ddyddiad cytunedig.

Gellir hybu ymwybyddiaeth am risg heintiau ymhlith y grŵp targed cyntaf, technegwyr ewinedd, naill ai gyda seminar, i'w gynnal gan yr awdurdod lleol a phartneriaid eraill yr ystyrir eu bod yn briodol, e.e. cynrychiolwyr o Gymdeithas y Diwydiant Gwallt a Harddwch, sy'n cynhyrchu Cod Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Ewinedd, neu gynrychiolwyr o Wasanaeth Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol. Efallai hefyd yr hoffai staff o Sefydliadau Addysg Bellach lleol sy'n darlithio ar gyrsiau Gwallt a Harddwch gymryd rhan. Gellid ei gyflawni hefyd drwy gylchredeg taflenni gwybodaeth a darparu cysylltiadau gwe, os ystyrir bod digon o dechnegwyr ewinedd i gyfiawnhau cynnal seminar neu ddigwyddiad tebyg.

Mae'n anos hybu ymwybyddiaeth am risg heintiau ymhlith yr ail grŵp targed, sef defnyddwyr salonau ewinedd, gan fod y grŵp hwn yn amrywiol a'i bod yn annhebygol hefyd y byddant eisiau mynychu seminar neu ddigwyddiad tebyg. Awgrymir felly y dylid targedu'r grŵp hwn drwy roi erthyglau mewn papurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal a thrwy gylchgronau rhad ac am ddim a dargedir at y grŵp, fel 'Ladies First' sef cylchgrawn hysbysebu rhad ac am ddim, sy'n hyrwyddo iechyd, harddwch a siopau dillad yn ogystal â chynnwys erthyglau sy'n berthnasol i'r grŵp. Gellir darparu'r wybodaeth ar ffurf testun i'w atgynhyrchu'n uniongyrchol neu ar ffurf datganiad i'r wasg gyda manylion cyswllt y swyddogion sy'n rhedeg y prosiect. Efallai hefyd yr hoffai'r rhai sy'n rhedeg y prosiect ystyried darparu taflenni i ddefnyddwyr bariau a salonau ewinedd gan amlinellu'r hyn y dylent edrych amdano wrth ddewis bar neu salon ewinedd. Dangosir y testun drafft ar gyfer taflen o'r fath yn Atodiad 4. Gellir cyflenwi'r taflenni i fariau a salonau ewinedd yn ardal y prosiect, er mwyn i'r cleientiaid eu dewis eu hunain neu i staff y salon ewinedd eu rhoi i gleientiaid. Awgrymir yr hoffai salonau ewinedd sicrhau efallai eu bod yn bodloni'r safon ofynnol fel yr amlinellir ar y daflen a ddangosir yn Atodiad 4 cyn dosbarthu taflenni i gleientiaid, sydd, mewn gwirionedd, yn hunanorfodi. Hefyd gellir gadael taflenni i bobl eu dewis eu hunain mewn safleoedd sy'n debygol o gael eu defnyddio gan aelodau'r ail grŵp targed, fel clybiau iechyd a hamdden, siopau trin gwallt ayb. Gellir 'addurno'' deunydd yn y daflen ac ychwanegu gwybodaeth bellach ato, fel cysylltiadau â gwefannau perthnasol, a gellid ei roi ar wefannau'r partneriaid sy'n rhedeg y prosiect, er mwyn i bobl â diddordeb ei weld ar y we.

Gellir rhedeg y prosiect am gyfnod sefydlog cyn y caiff ei asesu, neu gellir ei redeg ar sail ddiderfyn.

Os yw'r prosiect am gael ei asesu, bydd angen i'r rhai sy'n ei redeg bennu pa mor hir y dylai redeg cyn gwneud yr ymarfer asesu. Fel y nodwyd ym mhennod 2 nid yw'n hawdd asesu'r prosiect hwn, gan nad yw'n debygol y bydd unrhyw ddata ar gael ynghylch heintiau sy'n cael eu dal drwy ddefnyddio

salonau ewinedd i'r naill grŵp targed. Mae'n rhaid seilio asesiad felly ar feini prawf eraill. Un dull asesu yw defnyddio ail holiadur, i bennu a yw aelodau'r ail grŵp targed yn ymwybodol o'r deunydd a ddefnyddiwyd i hyrwyddo salonau ewinedd glân, ar ôl ei ddarllen neu glywed amdano yn y cyfryngau lleol, ac os felly a ydynt wedi cadw'r wybodaeth a gweithredu yn ei chylch. Dangosir holiadur drafft at y diben hwn yn Atodiad 5. Hefyd, gellid defnyddio nifer y taflenni a gymerir o safle i fesur llwyddiant. Derbynnir nad yw hwn yn fesur soffistigedig, gan na fydd pawb sy'n cymryd taflenni yn ddefnyddwyr salonau ewinedd; fodd bynnag, gallai cymryd taflen ddangos rhywfaint o ddiddordeb yn y pwnc a gellir ei ddefnyddio felly yn ddangosydd diddordeb. Os rhoddwyd gwybodaeth ar wefannau'r partneriaid i'r prosiect, gellid defnyddio nifer y trawiadau ar y deunydd a/neu nifer yr achosion o lwytho i lawr i fesur llwyddiant.

Gweithgarwch pellach

Mae'r ymyriad hwn yn delio â mater atal heintiau rhag lledu rhwng cleientiaid a'i gilydd ac o dechnegwyr i gleientiaid mewn salonau ewinedd. Mae yna broblem gysylltiedig hefyd, sef risg damweiniau i'r rheiny sydd ag ewinedd ffug a osodwyd yn anghywir neu'n amhriodol, o'r ewin ffug yn torri neu'n rhwygo oddi ar y bys ac yn niweidio gwely'r ewin, a pheryglon pellach i dechnegwyr ewinedd ac i gleientiaid drwy ddefnyddio cemegolion peryglus yn y salonau ewinedd. Nid yw'r cynllun hwn yn mynd i'r afael â'r materion hyn, ond gellid eu hymgorffori pe dymunai'r rhai sy'n rhedeg y prosiect.

Atodiad 1

Holiadur cyn y Cynllun – Technegwyr Ewinedd

1. Pa gymwysterau neu hyfforddiant ffurfiol sydd gennych chi a'ch staff?
2. A ydych chi'n gwneud hyfforddiant pellach? Os felly, beth?
3. A ydych chi'n mynnu bod pob cleient yn llenwi Holiadur Iechyd cyn cynnig triniaeth iddynt?
4. A ydych chi'n mynnu bod cleientiaid newydd yn llenwi Holiadur Iechyd cyn cynnig triniaeth iddynt?
5. Pa weithdrefn sydd gennych ar gyfer delio â staff sydd â haint bys neu ewinedd?
6. Pa weithdrefn sydd gennych ar gyfer delio â chleientiaid sy'n cyflwyno haint bys neu ewinedd i chi?
7. A oes gennych weithdrefnau neu brotocolau i atal haint rhag lledu yn y salon?
8. A yw wedi'i gofnodi?
9. A ydych chi'n defnyddio gwahanol setiau o offer ar gyfer pob cleient?
10. A ydych chi'n diheintio offer? Os felly, sut a pha mor aml?
11. A ydych chi'n defnyddio tywelion ffres ar gyfer pob cleient?
12. A ydych chi'n ailddefnyddio offer? Os felly, pa offer ydych chi'n ei ailddefnyddio a sut ydych chi'n ei drin rhwng ei ddefnyddio ar wahanol gleientiaid?
13. A oes gennych chi amserlen lanhau ffurfiol ar gyfer y bar/salon ewinedd?
14. A oes gennych chi weithdrefn ar gyfer delio â chleientiaid sy'n honni eu bod wedi dal haint yn y salon?
15. A ydych ch'n gwisgo dillad uchaf glân y gellir eu golchi i'w defnyddio wrth drin cleientiaid?
16. A ydych chi'n gwisgo menig untro ar gyfer pob cleient?
17. A ydych chi'n rhoi cyngor am ôl-ofal?
18. Pa weithdrefnau sydd gennych i'w defnyddio os bydd cleient yn gwaedu yn ystod triniaeth?
19. A ydych chi'n cadw cofnodion o bob cleient sydd wedi cael triniaeth?

Atodiad 2

Holiadur cyn y Cynllun – Cleientiaid Bar Ewinedd

1. A ofynnwyd erioed i chi lenwi Holiadur Iechyd cyn cael triniaeth ewinedd?
2. A ydych chi'n ymwybodol y gallai'r cemegolion a ddefnyddir mewn triniaeth ewinedd waethygu cyflyrau iechyd cynt?
3. A oeddech chi'n gwybod y gallech chi ddal heintiau o salonau ewinedd aflan?
4. A ydych chi'n ystyried bod glendid a hylendid mewn salonau ewinedd yn bwysig?
5. A fyddech chi'n gwrthod defnyddio/gadael bar neu salon ewinedd pe byddech chi'n teimlo nad oedd yn ddigon glân?
6. A fyddech chi'n codi materion glendid neu hylendid gyda thechnegydd ewinedd neu berchennog salon ewinedd?
7. Hyd y gwyddoch chi, a ydych erioed wedi dal haint o salon ewinedd?
8. Os ydych wedi dal haint ar ôl bod i salon ewinedd, a fyddech chi'n adrodd amdano i'ch adran Iechyd yr Amgylchedd?
9. A ydych erioed wedi gwaedu pan fo technegydd ewinedd wedi defnyddio dril yn ystod triniaeth? - Os felly, sut ataliwyd y gwaedu?
10. Ar ôl eich triniaeth, a roddwyd unrhyw gyngor am ôl-ofal i chi?
11. A fu rhaid i chi ymweld â meddyg erioed ar ôl cael triniaeth mewn bar ewinedd?

Atodiad 3

Talontastic

Ymholiadau iechyd cyn triniaeth

Atebwch y cwestiynau isod mor fanwl â phosibl. Gwneir hyn er mwyn eich amddiffyn chi yn ogystal â ni.

Enw.....

Cyfeiriad.....

1. Ydych chi'n ddiabetig? Ydw / Nac Ydw

2. Ydych chi'n dioddef unrhyw alergeddau croen? Ydw / Nac Ydw
   Os felly, i beth ydych chi'n alergaidd?.....

3. A oes gennych chi gyflwr croen eisoes? Oes/ Nac Oes
   Os felly, pa gyflwr croen?.....

4. Oes gennych gyflwr calon? Oes / Nac Oes

5. Ydych chi'n dioddef pwysedd gwaed uchel? Ydw/ Nac Ydw

6. Ydych chi'n dioddef pwysedd gwaed isel? Ydw / Nac Ydw

7. Ydych chi'n asthmatig neu a oes gennych chi glefyd ar y frest?

Cynghorir cleientiaid ein bod yn cadw'r hawl i wrthod trin unrhyw gleient ar sail yr atebion a ddarperir neu fethu darparu atebion i'r cwestiynau uchod.

.....

.....

At ddefnydd y salon

Dyddiad y Driniaeth.....

Natur y Driniaeth.....

Technegydd .....

Atodiad 4

Yr hyn i chwilio amdano cyn i chi drefnu eich Triniaeth Dwylo neu Draed nesaf

1. **Sicrhewch fod y Technegydd Ewinedd yn gymwysedig – gofynnwch i weld tystysgrif**
2. **Disgwyliwch y bydd gofyn i chi lenwi ffurflen iechyd i nodi unrhyw alergeddau sydd gennych efallai, nodi a ydych chi'n ddiabetig neu'n cymryd unrhyw feddyginiaeth a allai eich gwneud chi'n agored i haint.**
3. **Disgwyliwch weld sebon hylif a thywelion untro yn hytrach na thalpiau sebon a thywelion ffabrig.**
4. **Disgwyliwch weld tywelion untro ffres ym mhob gorsaf ewinedd.**
5. **Disgwyliwch weld offer dur gwrthstaen neu seramig. Nid oes modd diheintio plastig.**
6. **Os defnyddir offer plastig, sicrhewch y caiff ei daflu ar ôl ei ddefnyddio.**
7. **Disgwyliwch weld byrddau emeri a byffrau ewinedd yn cael eu taflu neu ddiheintio bob tro ar ôl eu defnyddio.**
8. **Os ydych chi'n defnyddio sba traed, disgwyliwch ei weld yn cael ei wagio'n llwyr a'i ddiheintio rhwng gwahanol gleientiaid.**
9. **Disgwyliwch weld bod yr holl offer yn cael ei gadw mewn toddiant mewn cynhwysydd caeedig am 30 munud o leiaf rhwng gwahanol gleientiaid.**
10. **Disgwyliwch i bob technegydd gael o leiaf 2 set o offer, oni bai bod mwy na 30 munud ganddynt rhwng pob cleient (yr amser y mae'n ei gymryd i ddiheintio)**
11. **Disgwyliwch weld cwyr paraffîn yn cael ei ddefnyddio unwaith yn unig. Dylai eich dwylo neu draed gael eu trochi mewn cynhwysydd tafladwy a dylid gwaredu'r cwyr wedyn.**

Atodiad 5

Cwestiynau awgrymedig ar gyfer holiadur dilynol gyda defnyddwyr salonau ewinedd.

1. Pa mor aml rydych chi'n defnyddio bar/salon ewinedd?

2. A ydych erioed wedi dioddef haint rydych yn ei briodoli i ddefnyddio bar/salon ewinedd?

3. A ydych chi wedi gweld y deunydd a gyhoeddwyd gan …….. ynglŷn â hylendid I salonau ewinedd a risgiau posibl heintiau?

4. Ble y gwelsoch chi'r wybodaeth?

5. A oeddech chi'n ymwybodol o'r ffeithiau a gyflwynwyd cyn gweld y wybodaeth?

6. Ar ôl clywed y ffeithiau a gyflwynwyd i chi, a newidioch chi'r ffordd rydych chi'n meddwl am y risgiau iechyd posibl o salonau ewinedd?

7. Ers clywed y ffeithiau a gyflwynwyd, a newidioch chi eich ymddygiad mewn unrhyw ffordd?

8. Os felly, sut?

9. A ydych chi'n ystyried bod hylendid a glendid yn bwysig mewn bar/salon ewinedd?

10. A fyddech chi'n gwrthod defnyddio/gadael bar neu salon ewinedd pe byddech chi'n teimlo nad oedd yn ddigon glân?

11. A fyddech yn codi materion glendid neu hylendid gyda thechnegydd ewinedd neu berchennog salon ewinedd?

[i] 'Nailing the Hazards' Bove J-P and Conrad J EHP 31 March 2006 12-14